## Hysbyseb Rheolwr Gwirfoddolwyr Rhanbarthol

**Lleoliad: Sir Fôn, Conwy a Gwynedd**
**Gweithio o Adre**
**Cyflog: Tua £12,000 am 2.5 diwrnod yr wythnos**

**Y Sefydliad**
Y mae Tir Dewi yn elusen sy'n cynnig cefnogaeth i ffermwyr a theuluoedd ffermio drwy Linell Gymorth am Ddim a Gwasanaeth Cefnogaeth ar y fferm. Cynigir y gwasanaethau gan dîm o wirfoddolwyr sy â phrofiad neu gydag empathi gyda ffermio ac wedi derbyn hyfforddiant addas. Y mae'r gefnogaeth yr ydym yn ei gynnig yn amrywiol iawn ond yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau ffermwyr, gyda llawer ohonynt yn profi argyfwng.
(www.tirdewi.co.uk)
Lansiwyd y gwasanaeth yng Ngogledd Cymru yn 2020 ac yr ydym nawr yn chwilio am gyd-weithiwr newydd i ddatblygu'r tîm gwirfoddoli a bod yn gyfrifol am drefnu eu gweithgaredd yn Sir Fôn, Conwy a Gwynedd.

**Y Rôl**

- Adeiladu ar alluoedd y tîm gwirfoddoli drwy hyfforddiant, cymhelliad a chefnogaeth fel bo'n addas.
- Denu gwirfoddolwyr newydd fel bo'r angen, gweithredu sefydlu a'r gwirio diogelwch addas.
- Trefnu a rheoli hyfforddiant gwirfoddolwyr, o fewn y mudiad a gyda darparwyr allanol.
- Rheoli gweithgareddau gwirfoddolwyr, gan sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr yn cael eu cynnwys gymaint ag sy'n bosib yn dibynnu ar eu sgiliau, profiad a pharodrwydd i wirfoddoli.
- Monitro a gwerthuso gweithgareddau a chyfrannu at adroddiadau i arianwyr ac ymddiriedolwyr.
- Cadw bâs-data ac ymgymeryd ag unrhyw ddyletswyddau gweinyddol eraill.

**Y Person**
Bydd gennych

- Brofiad o reoli neu gyd-lynnu prosiectau a gwirfoddolwyr neu brofiad y gellir ei drosglwyddo mewn rôl tebyg.
- Empathi gyda'n cymuned darged, ffermwyr a'u teuluoedd. Gallech fod o gefndir ffermio neu gymuned ffermio eich hun.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn y Gymraeg a Saesneg.

- Sgiliau rhyng-bersonol cryf a'r gallu i ddelio gydag ystod eang o bobl.
- Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth mewn modd cyfrinachol ac ymateb yn sensitif.
- Sgiliau trefnu ardderchog, yn ddelfrydol gyda'r gallu i ddefnyddio bâs-data er mwyn cadw cofnodion ac adroddiadau.

**Cyflog**
Y mae hon yn rôl rhan-amser o 20 awr yr wythnos. Tra gall fod hyblygrwydd am pryd i weithio'r oriau hyn bydd angen ambell weithgaredd gyda'r nos ac ar benwythnos.
O dderbyn eich ymroddiad byddwn yn cynnig cyflog o tua £12,000 y flwyddyn, yn ddibynnol ar brofiad. Yn ychwanegol, y mae cynllun pensiwn deiliaid diddordeb ac fe delir costau teithio.
Yr ydym yn bwriadu i'r rôl fod yn un o weithio o adre ond gallwn gynnig lle mewn swyddfa i'r ymgeisydd iawn os bydd angen.

**I Ymgeisio**
A wnewch chi anfon CV a llythyr amgaedig at gareth@tirdewi.co.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau nad ydynt yn cael eu hateb yn y ddogfen hon, galwch 01348 837600. Dyddiad cau'r ceisiadau yw 3 Ebrill 2022.

0800 121 4722
01348 837600
07970 180408
www.tirdewi.co.uk
gareth@tirdewi.co.uk
Charity Commission Registration Number: 1179204

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
THE PRINCE'S COUNTRYSIDE FUND
Time to Shine